# Cofnodion Cyfarfod 7/3/2024

**Presennol:** Y Maer Eifion Roberts, Moira Mai, Dilys Evans, Rhys Evans, Jacqueline Allen, Fiona Hopkins a Huw Antur (*Clerc*).

**Hefyd yn bresennol:** Y Cyng. Dilwyn Morgan (Aelod lleol Cyngor Gwynedd).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. John C Williams, Tony Parry, Clare Mackintosh ac Eluned Jones.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer, Eifion Roberts. Dywedodd ei fod wedi mynychu cinio hefo Teulu'r Berwyn, ac fe gyfeiriodd at sesiwn gyda'r ymgynghorwyr Urbanist i gychwyn y broses o greu Cynllun Creu Lle i dref y Bala.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Fe gadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 1/2/24.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

   i. Cynllun Creu Lle: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod gyda chwmni Urbanist ar Fawrth 7fed. Cafwyd taith o amgylch y dref yn y bore i adnabod safleoedd allweddol i'r dref, ac yn y pnawn fe gynhaliwyd gweithdy i drafod cyfleoedd datblygu i'r dref.

   ii. Cynllun Celf Canol Trefi: Yn dilyn cyfarfod ar Chwefror 8fed fe gytunwyd i awgrymu safleoedd at gyfer gwaith celf cyhoeddus posibl, sef safleoedd ger Canolfan Bro Tegid, Maes Parcio'r Plase, safle ger y Coop, wal amlwg yn y dref a Thomen y Bala. Awgrymwyd y posibilrwydd o osod panel cyfeirio ymwelwyr ger Canolfan Hamdden Penllyn hefyd. Cytunwyd i gymryd gofal am gynnal a chadw'r panel ger Maes Parcio'r Plase.

   iii. Baner y Domen a Mainc y Stryd Fawr– adroddwyd fod baner y Ddraig Goch wedi gosod ar y Domen erbyn Dydd Gŵyl Dewi, a bod trefniadau yn eu lle i drwsio'r fainc ger cofeb Tom Ellis erbyn Gwyliau'r Pasg.

   iv. Lluniau Maer y Dref – derbyniwyd prisiau am ddylunio, tynnu lluniau a fframio llun o Faer y Dref yn flynyddol. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd yn hytrach i wneud trefniant mewnol – y Cyng Eifion Roberts i drafod ymhellach gyda'r Cyng Eluned Jones.

   v. Prosiect Diogelwch Cymunedol: Adroddwyd fod y Cyng Clare Mackintosh wedi paratoi taflen i hyrwyddo'r cynllun Smartwater, ac fe anogwyd y cynghorwyr i ddosbarthu'r daflen yn eang yn y dref. Nodwyd y bydd angen casglu'r enwau erbyn y cyfarfod nesaf fis Ebrill.

vi. Trefniadau Triathlon 2024: Cytunwyd i wahodd Tim Lloyd o gwmni Camu i'r Copa, trefnwyr newydd y Triathlon, i gyfarfod mis Mai o'r Cyngor Tref.
vii. Cyfarfod Taith Menter Iaith: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod Menter Iaith yn y dref ar Chwefror 21ain, pryd y rhoddwyd blaenoriaethau i Fenter Iaith Gwynedd ar sut i hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn yr ardal.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Dilwyn Morgan, pryd y soniodd am y gwaith sydd yn symud ymlaen ger Ysgol Godre'r Berwyn, a'r gwaith ger y Ganolfan Deulu sy'n cael ei ffilmio ar gyfer Prosiect Pum Mil. Cafwyd trafodaeth ar fflatiau gwag Grŵp Cynefin yn Rhandai Tegid, ac hefyd ar yr angen i gysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ofalu fod bolards yn cael eu symud mewn pryd ar gyfer y 'Park Run' wythnosol.

6. **Y Bala – Yma o Hyd:** Adroddwyd fod blodau wedi eu plannu ar ffurf 700 yn y Grin, ac hefyd fod rhaglen lawn o weithgareddau dathlu wedi eu trefnu dros y misoedd nesaf.

7. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiadau:

i. Is-bwyllgor y Nadolig: Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gynnal cystadleuaeth Goleuadau Nadolig i siopau'r dref yn ogystal â'r gystadleuaeth Ffenestr Siop orau. Cytunwyd fod ateb galw a disgwyliadau yn anodd gyda chyllideb fechan.
ii. Is-bwyllgor bioamrywiaeth: Adroddodd y Cyng Jacqueline Allen ei bod yn cydweithio gyda Rowenna Williams i blannu coed etc yn y dref. Nodwyd y byddai tudalen Facebook benodol yn medru bod yn ddefnyddiol ar gyfer hyrwyddo'r gwaith o osod bocsys ar gyfer ystlumod neu wenoliaid.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

i) Grŵp Siopau'r Bala: Derbyniwyd cais gan y grŵp i gyfarfod cynrychiolwyr o'r Cyngor Tref ar Fawrth 14eg. Gofynwyd i'r Cyng Fiona Hopkins, Rhys Evans a Sion McGuinness i gynrychioli'r cyngor.
ii) Cwmni Pum Plwy Penllyn: Adroddwyd fod aelod o staff ychwanegol, Glesni Davies wedi ei phenodi, a bod sawl prosiect ar y gweill – cyhoeddi papur wythnosol y Cyfnod am gyfnod peilot o 12 wythnos, trefnu Ffair Yrfa a Gŵyl Fwyd. Nodwyd fod swyddfeydd ar gael, a bod y cwmni hefyd yn ymchwilio i gynlluniau ynni gwyrdd, ac yn trefnu gweithdy ar Trafnidiaeth Gymunedol ar Fawrth 14eg – y Cyng Fiona Hopkins a Rhys Evans i gynrychioli'r Cyngor Tref.

8. **Materion Cynllunio**: NP5/53/AD482A: Caniatâd Hysbysebion i osod panel gwybodaeth am Daith Mari Jones. Tir ger Ty Thomas Charles, Stryd Fawr, Y Bala. Cytunwyd i gefnogi'r cais.

*9.* **Materion Cyllid:**

**i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £16,748.66 yn y cyfri cyfredol, £16,455.38 yn y cyfri cadw a £857.74 yng Nghronfa'r Maer. Nodwyd fod £5,000 wedi ei glustnodi tuag at gostau dathliadau Y Bala – Yma o Hyd.



ARWYDDWYD........................................................(MAER) / / ......................................(CLERC)

ii. Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws a chyflog y Clerc ac anfoneb Siop Celt am flodau dathlu y Bala, Yma o Hyd.

iii. Ceisiadau am gymorth ariannol: Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ar y cyfraniadau canlynol:

Urdd Gobaith Cymru – Rhanbarth Meirionnydd: £200

Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd: £300

Cymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn: £500

Cantref: £200

Parc Chwarae Heol y Castell: £200

Teulu'r Berwyn: £350

Clwb Criced y Bala: £300

Theatr Derek Williams: £300

Ambiwlans Awyr Cymru: £100

Llen y Llannau: £100.

**10. Gohebiaeth:**

i. Cynllun Finyls Stryd Fawr: Derbyniwyd cynnig gan Gyngor Gwynedd i osod finyl addurnedig ar ffenestri siopau gweigion yn y dref, ac fe wnaed rhestr o siopau po0sibl.

ii. Perthyn – Ardal Gymraeg: Derbyniwyd gwybodaeth am gynllun Perthyn fyddai'n tynnu sylw at natur Gymraeg yr ardal, a'r angen i warchod y Gymraeg fel iaith gymunedol. Gofynnwyd i'r Cyng Dilwyn Morgan a'r Clerc i gael gwybodaeth bellach am ddatblygiadau tebyg ym Mhen Llyn.

iii. Colofnau Goleuadau Stryd Blaenddol: Derbyniwyd gwybodaeth am waith ar y gweill gan Gyngor Gwynedd.

iv. Paneli Solar Clwb Rygbi'r Bala – adroddwyd fod y Clwb Rygbi yn paratoi ceisiadau grant am gyllid i ariannu'r gwaith o osod paneli solar ar y to. Cytunwyd i anfon llythyr o gefnogaeth i'r Clwb Rygbi.

v. Rali Ceir Vintage: Derbyniwyd cais i enwebu achos da lleol i dderbyn casgliad parcio'r rali, ac fe gytunwyd i enwebu Gardd Gymunedol y Bala.

vi. Sgyrsiau Iechyd Lleol y Bwrdd Iechyd: Derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod ym Mangor ar Fawrth11eg.

vii. Gwasanaethau Ambiwlans Brys: Derbyniwyd newyddlen y gwasanaeth.

viii. Cydnabyddiaeth Ariannol Llywodraeth Leol: Derbyniwyd copi o'r adroddiad am 2024/2025.

ix. Portread o’r Brenin: Derbyniwyd cynnig i dderbyn portread o’r brenin i’w arddangos yn lleol. Cytunwyd i beidio derbyn y cynnig.
x. Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Brenin 2025: Derbyniwyd gwahoddiad i enwebu personau i dderbyn Anrhydedd. Cytunwyd i beidio enwebu.
xi. Heol Arenig a Ffordd Bron y Graig: Derbyniwyd rhybudd yn nodi y bydd y ffyrdd ar gau dros dro yn fuan ar gyfer gwaith hanfodol.

11. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Nid oedd materion ychwanegol.

**12.** Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm a bydd y cyfarfod nesaf **Nos Iau Ebrill 11eg 2024.**